



**COFNODION BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU**

**28 Ionawr 2016**

**YN BRESENNOL**

Andy Richardson (AR) Cadeirydd  
David Lloyd (DL) Is-gadeirydd  
Justin Scale (JS) Is-gadeirydd  
Alison Lea-Wilson (ALW)  
Buster Grant (BG)  
Huw Thomas (HT)  
James Wilson (JW)  
Justine Fosh (JF)  
Katie Palmer (KP)  
Marcus Sherreard (MS)  
Dr Norma Barry (NB)

Andrew Slade, LIC (AS)  
Keith Smyton, LIC (KS)  
David Morris, LIC (DM)  
Peredur John, LIC (PJ)  
Ruth Akers, LIC (RA)  
Medwyn Roberts, LIC (MR)

**YMDDIHEURIADAU**

Annitta Engel  
Catherine Fookes  
Llior Radford  
Rebecca Evans AC, Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

**Eitem 1: Croeso – Cadeirydd Dros Dro**

1. Estynnodd Andrew Slade (AS) ei groeso i bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar wahân i fân newidiadau.
2. Cyhoeddwyd canlyniadau'r bleidlais i benodi Cadeirydd/Is-gadeiryddion newydd Bwrdd y Diwydiant. Etholwyd Andy Richardson (AR) yn Gadeirydd newydd a David Lloyd a Justin Scale yn Is-gadeiryddion.
3. Mynegodd y cadeirydd etholedig ei ddiolch i'r Bwrdd am y bleidlais o hyder ynddo gan ddweud ei fod yn disgwyl ymlaen at weithio gyda phawb a chyda'r tîm cryf o is-gadeiryddion.

**Eitem 2: Yn sgil y cwrdd i ffwrdd ar 3 Rhagfyr 2015**

4. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r diwrnod cwrdd i ffwrdd. Cytunwyd ei bod yn beth da cynnal fforwm o'r fath er mwyn cael trafodaeth rydd am bynciau pwysig. Roedd yn



bwysig ei bod yn magu eu hunaniaeth fel Bwrdd a bod yn glir ynghylch yr hyn y maen nhw'n ei gynrychioli. Trafodwyd y canlynol gan yr Aelodau:

### **Datganiad o Ddiben**

- Newidiwyd y datganiad o ddiben gan y Bwrdd fel a ganlyn:

*“Diben y Bwrdd yw hyrwyddo a gwella enw da'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru er mwyn cyflawni 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'.*

*Mae'r cynllun hwn yn anelu at gynyddu'r diwydiant 30% erbyn 2020 a bydd y Bwrdd yn gweithio tuag at ei gyflawni drwy'r canlynol:*

- *Gweithio mewn partneriaeth â'r Diwydiant a'r Llywodraeth i ddatblygu marchnadoedd, hyrwyddo twf a diogelu ein hadnoddau naturiol;*
- *Datblygu gweithlu medrus a diwydiant arloesol â'r cynhyrchion a'r prosesau diweddaraf;*
- *Gweithio yn unol ag ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;*
- *Bod yn rhan effeithiol a defnyddiol o'r Diwydiant a'r Llywodraeth;*
- *Gwella barn pobl am fwyd a diod Cymru.”*

### **Mesurau Llwyddiant**

Caboldwyd y mesurau llwyddiant gan yr Aelodau. Bydd 48 cam gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn dylanwadu ar y mesurau hyn:

- Darperir y 30% o dwf erbyn 2020 yn unol ag ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Dylai'r Bwrdd fod yn rhan effeithiol a defnyddiol o'r diwydiant;
- Gwella barn pobl am fwyd a diod Cymru fel 'y lle i fod ynddo' ac fel lle y bydd pobl yn awchu am ei fwyd a diod.

### **Ffrydiau Gwaith**

Un o argymhellion y cwrdd i ffwrdd oedd y dylai'r Bwrdd ystyried ffurfio ffrydiau gwaith penodol. Cytunwyd ar y canlynol:

**Pobl a Sgiliau** – Justine, David, Justin.

**Busnesau a Buddsoddi** – Huw, Annitta.

**Cwsmeriaid/Marchnadoedd** – James, Alison, Marcus, Catherine.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu** – Buster, Norma, Katie.

Nid oes ffrwd wedi'i neilltuo i Llior eto ac nid yw Andy wedi cael grŵp am ei fod yn Gadeirydd.



### **Adroddiad Medi 2016**

Dywedodd Peredur John (PJ) wrth y Bwrdd bod disgwyl i'r Bwrdd gyflwyno adroddiad i Weinidogion am ei weithgareddau a'i allbynnau a'i ganlyniadau, yn unol â Cham Gweithredu 1 "Tuag at Dwf Cynaliadwy". Gellid ei gyflwyno mewn seminar neu mini-gynhadledd ym mis Medi.

### **Eitem 3: Materion Diwydiant Byw**

5. Cafodd y Bwrdd wybod am y datblygiadau diweddaraf yn y meysydd gwaith canlynol:
  - Gwaith Pwyllgor Cynghori Pysgod Môr Cymru
  - Materion ynghylch yr ardoll prentisiaethau newydd pan ddaw i rym.

### **Eitem 4: Y Diweddaraf am Fwrdd y Rhaglen: Cerrig milltir pwysig a'r amserlen ar gyfer rhoi'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod ar waith.**

6. Dywedodd David Morris (DM) wrth yr Aelodau am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma i roi'r camau gweithredu targed sydd yn 'Tuag at Dwf Cynaliadwy' ar waith.
7. Y Ddeddf Llesiant sydd bellach yn ein tywys o ran y canlyniadau rydym am eu gweld, ond mae angen mynd i'r afael yn benodol â'r saith nod llesiant sy'n deillio o'r Ddeddf.

### **Eitem 5: Cyflwyniad – y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Mark Grant**

8. Cyflwynodd Mark Grant o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) fraslun i'r Bwrdd o gysylltiad yr NPS â gwariant y sector cyhoeddus ar fwyd a diod.

### **Eitem 6: Cyflwyniad – Atal Gwastraff Bwyd - WRAP Cymru, Hugh Jones.**

9. Cyflwyniad gan Hugh Jones, yn disgrifio gwaith a gweledigaeth WRAP.
10. Estynnodd Hugh wahoddiad i'r Bwrdd lofnodi fel Partneriaid Ymgysylltu â Courtauld 2025 oherwydd y weledigaeth y maent yn ei rhannu i sicrhau cynaliadwyedd, effeithlonrwydd a diogelwch bwyd ym mhob rhan o'r diwydiant.

### **Eitem 7: Cyfarfodydd yn y Dyfodol – Busnes a Dyddiadau**

11. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Mawrth yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

### **Eitem 8: Unrhyw Fater Arall**

12. Trafodwyd:-
  - Cyflwyniad yn y dyfodol am Glystyrau
  - Rôl y Bwrdd yn y Sioe Fawr.